

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Medi 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol y Rhyl, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, Ms J. McAlpine, S. Ratcliffe, Miss S. Roberts, Miss R. Siddall, T. Thomas a'r Parch. S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

21. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr B. F. Moylan (yn sâl), Mrs. W. Mullen-James, A.R. Rutherford (ymrwymiad arall).

22. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

CEISIADAU CYNLLUNIO	
22.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> The Money Shop, 83 Stryd Fawr, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0851</p> <p>Arddangos 3 arwydd ac 1 arwydd crog.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. Simon Hargreaves, Dollar UK, Uned 1, Castole Marina Road, Nottingham, NG7 1TN</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
22.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 4 Rhydwen Close, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0830</p> <p>Adeiladu estyniad un llawr to gwastad ar gefn tŷ annedd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. Gary Richards o'r cyfeiriad uchod.</p>

	<u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad

23. SAFEOEDD TIR ANNIBEN

Ymhellach i Gofnod Rhif 19 cyfarfod 7fed Medi 2016, adroddodd y Cadeirydd/Clerc y Dref am ohebiaeth gan y Swyddog Cynllunio perthnasol yn cytuno i'r cyfarfod ond yn gofyn bod y Cyngor Tref yn adnabod enghreifftiau penodol o dir anniben o gwmpas y Rhyl ymlaen llaw.

Cyfeiriodd Aelod at gyflwr presennol South Kinmel Street a gofyn am gael cynnwys yr ardal honno.

PENDERFYNWYD cydnabod y sefyllfa a bod Aelodau'n adrodd am safleoedd penodol yn y cyfarfod nesaf.

24. ARDAL GADWRAETH CANOL Y RHYL

Dywedodd y Cadeirydd bod goleuadau allanol wedi eu gosod ar 7 Brighton Road a'i fod yn ystyried nad oedd hyn yn cydfynd â'r Ardal Gadwraeth a'r adeiladau rhestredig cyffiniol.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn cyfeirio'r mater i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

25. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: